OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1389 (Cy.139)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*23 Mai 2006*
Yn dod i rym - -	*24 Mai 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 83A, 126(4) a 128(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2006, a deuant i rym ar 24 Mai 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988(**2**).

Diwygio Rhan I o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau

2.—(1) Mae tabl A o Ran I o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau (addasiadau o ddarpariaethau Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987(**3**)at ddibenion Rhan I o'r Atodlen hon) wedi'i ddiwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn y cofnod sy'n ymwneud â rheoliad 45–

(**1**) 1977 p.49 ("Deddf 1977"); mewnosodwyd adran 83A gan adran 14(1) o Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1988 (p.7) ac fe"i diwygiwyd gan baragraff 6 o Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), gan baragraff 18(5) o Atodlen 9 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 (p.19) ("Deddf 1990") a chan baragraff 40 o Atodlen 1 i Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17).
Diwygiwyd adran 126(4) gan adran 65(2) o Ddeddf 1990 a chan Atodlen 4, paragraff 37(6) i Ddeddf Iechyd 1999 (p.8).
Adran 128(1), fel y"i diwygiwyd gan adran 26(2)(g) ac (i) o Ddeddf 1990, am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".
Trosglwyddwyd swyddogaethau"r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 83A, 126(4) a 128(1) o Ddeddf 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y"i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(5).

(**2**) O.S.1988/551 fel y"i diwygiwyd gan O.S.1989/394, 517 a 614, 1990/548, 918 a 661, 1991/557, 1992/1104, 1993/608, 1995/642 a 2352, 1996/410, 1346 a 2362, 1997/748 a 2393, 1998/417, 1999/767 a 2840 (Cy.20), 2001/1397 (Cy.92) a 3322 (Cy.275), 2003/975 (Cy.134) a 2003/2561 (Cy.250), 2004/871 (Cy.86) a 2004/1042 (Cy.124) a 2005/1723 (Cy.135) a 2005/3302 (Cy.256).

(**3**) O.S.1987/1967